# LC1312

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant (Cymru) 2006

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer swyddogaethau Byrddau Lleol Cymru ar gyfer Diogelu Plant o ran yr amcan a osodwyd ar eu cyfer gan adran 32 o Ddeddf Plant 2004, aelodaeth y Byrddau a'u gweithdrefnau.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Yn rheoliad 2(1), mae’r diffiniad o "aelod" yn cynnwys croesgyfeiriad anghywir at reoliad 5(1). Caiff y term ei esbonio yn rheoliad 6(1). [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn y diffiniad o "corff cynrychioliadol" yn rheoliad 2(1), dylid cyfeirio at "corff sydd wedi penodi person". [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae’r term "ysgrifennydd" yn ymddangos fel diffiniad yn rheoliad 2(1), ond yr unig dro arall y mae’n ymddangos yw yn rheoliad 7(1) sy’n esbonio’r term. Felly, gellir dileu’r diffiniad, ynghyd â’r geiriau mewn cromfachau yn 7(1). [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae is-baragraffau rheoliad 4(1) yn wahanol yn y testunau Cymraeg a Saesneg, gyda newidiadau canlyniadol i’r croesgyfeiriad yn rheoliad 4(2). Mae’r cynnwys yr un peth, ond mae angen sicrhau bod y paragraffau a’r llythrennau yn gyson. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mae strwythur testun Cymraeg rheoliad 5(1)(b) yn golygu ei fod yn anodd ei ddilyn, ac, yn achos is-baragraff (iii), arweiniodd at gamddehongli. Byddai’n haws ei ddeall pe bai’r ddwy linell ar y diwedd yn ymddangos ym mhob un o’r is-baragraffau ar ôl y cyfeiriad rhagarweiniol at deitl y swydd, gyda’r geiriau "y swyddog hwnnw" i ddilyn yn achos is-baragraff (iii). [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn rheoliad 5(2)(c), mae’r geiriau sy’n dilyn "reolwr y tîm" yn wahanol yn y ddwy iaith. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Yn is-baragraff terfynol rheoliad 5(2), mae’r geiriau cloi o ran pwy all ddirprwyo yn wahanol yn y ddwy iaith. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mân wallau drafftio neu deipograffyddol yw pob un o’r rhain sy’n briodol i’w cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Nodwyd mân bwyntiau fformadu hefyd i’w cywiro wrth gyhoeddi.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 20 Mehefin 2006